

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-2023



Llais annibynnol pobl Cymru sy'n gwneud defnydd o wasanaethau'r GIG ydy Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau). Rydyn ni'n cynnwys gwirfoddolwyr lleol sy'n gwrando ar ac yn cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd. Ceir 7 CICau sy'n gyfrifol am wahanol rannau o Gymru.

Mae Bwrdd CICau [y Bwrdd] yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad CICau. Mae'n cynrychioli barn gyffredinol CICau ledled Cymru.

**Mae copi electronig o'r ddogfen hon i'w gael ar ein gwefan:
www.powyschc.wales**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Os hoffech dderbyn copi o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni:

**Cyngor Iechyd Cymuned Powys
Llawr 1af, Neuadd Brycheiniog
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
LD3 7HR**

Ffôn: 01874 624206

E-bost: enquiries.powyschc@waleschc.org.uk

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Ciplwg ar ein blwyddyn
4. Yr hyn fuon ni'n gwneud
5. Sut wnaethon ni gwrdd â safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023
6. Edrych ymlaen
7. Atodiadau

Crynodeb gweithredol

CIC Powys ydy gorff gwarchod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ym Mhowys. Rydyn ni'n annog a chefnogi pobl i fod â llais yn llunio a chyflenwi gwasanaethau'r GIG. Mae CIC Powys yn cynrychioli sylwadau pobl sy'n byw ym Mhowys, p'un ai a ydy gwasanaethau'r GIG maen nhw'n eu defnyddio oddi fewn neu'r tu allan i Bowys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Safonau'r Gymraeg yn gosod allan ein cydymffurfiant â'r safonau hynny.

Ers Mawrth 2020, fe wnaethon ni newid ein ffordd o weithio, gan gynnal cyfarfodydd ar-lein, a gweithio o gartref. Bellach, rydyn ni'n dychwelyd at rhywfaint o waith wyneb yn wyneb, a chyfarfodydd hybrid, gan gredu na fu i'r ffordd newydd hon o weithio effeithio ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaeth yn ddwyieithog.

Fe gawson ni'n cysuro yn y ffaith na dderbyniwyd unrhyw bryderon gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â chymhwyso Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn 2022-2023.

Trwy gydol y flwyddyn, gweithiodd CIC Powys i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob maes ein gwaith, gan gynnwys hyfforddiant Cymaeg i'n haelodau a'n staff.

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod allan fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar y Bwrdd a'r 7 CIC ledled Cymru i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg.

Daeth Safonau'r Gymraeg ["y safonau"] i rym a gyfer y Bwrdd a'r 7 CIC ar 30 Mai 2019.

Fel 8 corff statudol ar wahân, mae'r Bwrdd a phob CIC yng Nghymru wedi derbyn hysbysiad ar wahân ynghylch y Safonau sy'n gymwys iddyn nhw, a benderfynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ac yn seiliedig ar eu hamgylchiadau neilltuol.

Dyma trydydd adroddiad CIC Powys ynghylch cydymffurfiant â'r safonau. Mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Katie Blackburn, y Prif Swyddog, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol yn CIC Powys am y Gymraeg. Hi sy'n gyfrifol am sicrhau gweithredu'r safonau ddydd i ddydd.

Cioplwg ar ein blwyddyn

Doedd gweithio o
gartref, a chynnal
cyfarfodydd ar-lein
ddim wedi effeithio
ar ein gallu i
ddarparu
gwasanaethau trwy
gyfrwng y Gymraeg

Cymerodd ein
haelodau ran
mewn Sesiwn
Ymarfer
Cymraeg Llafar
a derbyn
deunyddiau
hyfforddiant yn
Gymraeg

Ni dderbyniwyd
 unrhyw
gwynion gan y
cyhoedd gyda
golwg ar ein
cydymffurfiant
â'r Gymraeg

Bu aelodau ein
tîm staff yn
mynychu
cyrsgiau
Cymraeg ar-
lein

Yr hyn fuon ni'n gwneud

Yn ystod 2022-2023, mae CIC Powys wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymadau o dan Ddeddf Safonau'r Gymraeg 2019. Rydyn ni wedi asesu ein cydymffurfiant yn erbyn y safonau a datblygu camau i wella.

Ers Mawrth 2020, rydyn ni wedi newid y ffordd rydyn ni'n gweithio, gan gynnal cyfarfodydd ar-lein, a gweithio o'n cartrefi. Rydyn ni bellach yn dychwelyd at rywfaent o waith wyneb yn wyneb, ac i gyfarfodydd hybrid, gan gredu nad ydy'r ffordd newydd hon wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaeth yn ddwyieithog.

Rydyn ni'n cynhyrchu nodiadau briffio o gyfarfodydd sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, yn Gymraeg a Saesneg.

Delio â chwynion ynghylch y Gymraeg

Mae ein gweithdrefn 'cwyno amdanom ni' yn gosopd allan y broses o ddelio â chwynion ynghylch ein cydymffurfiant â safonau'r Gymraeg. Cewch fwy o wybodaeth am hyn yn y ddolen-gyswllt ganlynol <https://powyscic.gig.cymru/amdanom-ni/cwyno-amdanom-ni/>

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ganddon ni mewn perthynas â'r Gymraeg.

Sut wnaethon ni gwrdd â safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023

Fe wnaethon ni gynnal hunanasesiad o'n cydymffurfiant â'r safonau ym mis Mawrth 2023. Ceir y casgliadau manwl yn **Atodiad A**. Mae crynodeb o'n hasesiad i'w weld yn y paragraffau canlynol.

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Mae'r safonau hyn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau. Eu nod ydy hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg neu i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'n nhw'n ymwneud â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig i'r cyhoeddyn y Gymraeg, e.e. gwasanaethau dros y ffôn, defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, llythyrau a dogfennau, gwasanaethau ar-lein.

Cyflenwi Gwasanaeth	Cydymffurfi o	Yn gweithi o tuag at	Ddim yn cydymffurfi o	Ddim yn berthnaso l
Nifer y Safonau	60	0	0	3
63	60	0	0	3

Mae'r safonau cyflenwi gwasanaeth yn gofyn inni fod â gweithdrefnau mewn lle i gynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl pan fydden nhw'n cysylltu â ni dros y ffôn, trwy lythyr, e-bost neu drwy sianeli ein cyfryngau cymdeithasol. Mae'r safonau hefyd yn

ymwneud ag unrhyw ddogfennau a gyhoeddir ganddon ni neu ddeunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir ganddon ni.

Mae'r camau a gymerir ganddon ni i gydymffurfio â'r safonau'n cynnwys:

- Mae ein system ateb ffôn awtomatig yn ddwyieithog
- Rydyn ni'n cofnodi dewis iaith pobl wrth inni gyfathrebu gyda nhw am y tro cyntaf er mwyn inni gyfathrebu gyda nhw yn eu dewis iaith o hynny ymlaen.
- Wrth anfon yr un ohebiaeth at sawl person ar yr un pryd, mae'n cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae holl batrymluniau llythyrau safonol wedi'u diweddarau gyda'r datganiad yn datgan ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac y byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb oedi.
- Mae'r holl ddeunyddiau ar gyfer ein Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Cwynion yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae'r holl hysbysiadau, posterï a hysbysebion cyhoeddus yn ddwyieithog.
- Aeth ein gwefan newydd yn fyw ym mis Rhagfyr 2020 ac mae'n ddwyieithog.
- Mae pob postiad rydyn ni'n sgwennu at y cyfryngau cymdeithasol wedi'u llunio yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gan gynnwys taflenni gwybodaeth, byrddau arddangos a baneri hyrywyddo un ai yn ddwyieithog neu'n cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae pob arolwg yn cael ei gynnig yn Gymraeg a Saesneg.

Ar hyn o bryd, does ganddon ni ddim aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn CIC Powys. Pan fo swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n allanol, maen nhw'n cael eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn faen prawf hanfodol yn y lle cyntaf.

Safonau llunio polisiau

Mae'r safonau llunio polisiau'n gofyn inni ystyried yr effaith gall ein penderfyniadau polisi gael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor arweiniol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffarfiol na'r Saesneg.

Mae'r safonau hyn yn gofyn inni wneud y 3 pheth canlynol:

1. ystyried effeithiau a goblygiadau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (yn gadarnhaol ac yn negyddol);
2. ystyried sut i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, lliniaru a lleihau effeithiau andwyol ac achub pob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
3. ceisio sylwadau ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori ac i geisio barn siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg.

Llunio polisiau	Cydymffurfio	Yn gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn berthnasol
Nifer y Safonau				
9	9	0	0	0

Mae'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gydymffurfio â'r safonau llunio polisiau'n cynnwys:

- Defnyddir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi, a rhaid ei gwblhau wrth ddatblygu, adolygu neu ddiwygio unrhyw un o'n polisiau. Y Gymraeg ydy un o'r nodweddion a ystyrir wrth gwblhau AEGau.
- Pob blwyddyn, gwahoddwn aelodau'r cyhoedd a phrif randdeiliaid i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer datblygu ein cynllun gwaith blynyddol. Mae'r gwahoddiad yn rhoi cyfle cyfartal i ymateb yn Gymraeg a Saesneg.

Safonau gweithrediadol

Mae'r safonau hyn yn delio â'r ffordd mae'r Bwrdd a'r CICau yn hyrwyddo ac yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gan weithio tuag at weithle dwyieithog.

Safonau Gweithrediadol	Cydymffurfio	Yn gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn berthnasol
Nifer y Safonau				
17	17	0	0	0

Yn ystod 2022-2023, bu i Fwrdd CICau ddiweddarau'r canllawiau ar gyfer y Bwrdd a staff ac aelodau CIC ynghylch defnydd y Gymraeg. Dyma'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd:

- Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd dwyieithog
- Defnyddio negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog
- Cyngor arferion da ar ddatblygu ein harferion ynghylch y Gymraeg

Darparwyd dolenni-cyswllt gan Fwrdd CICau at adnoddau i staff ac aelodau i ddysgu Cymraeg

Mae aelodau'r tîm staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Cymraeg ar-lein a hwyluso sesiwn Cymraeg llafar.

Rydyn ni wedi gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (CMGP) i rannu deunyddiau hyfforddi Cymraeg gydag Aelodau a staff.

Safonau cadw cofnodion

Mae'r safon hwn yn ymwneud â chadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiant â'r safonau.

Cadw cofnodion	Cydymffurfio	Yn gweithio tuag at	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn berthnasol
Nifer y Safonau				
1	1	0	0	0

Yn ystod 2022-2023, ni dderbyniwyd yr un gŵyn ganddon ni mewn perthynas â'n cydymffurfiant â Safonau'r Gymraeg.

Sgiliau yn y Gymraeg

Mae CIC wedi cynnig cyrsiau ar-lein i staff er mwyn iddyn nhw ddysgu Cymraeg.

Fe wnaethon ni ofyn i staff ein CIC i hunanasesu eu sgiliau yn y Gymraeg, gan ddefnyddio'r fframwaith yn **Atodiad B**. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau:

MATRICES HUNANASESU CYMWYSEDDAU YN Y GYMRAEG							
Niferoedd a lefelau staff yn gweithio yng Nghyngor Iechyd Cymuned Powys sy'n siarad Cymraeg							
Band cyflog	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
8B	1						1
7		1					1
6	2						2
5	1						1
4	2						2
3		1					1
	6	2					8

Staff yn mynychu cyrsiau Cymraeg

PRESENOLDEB STAFF AR GYRSIAU CYMRAEG	
LEFEL CWRS AR-LEIN	NIFER Y STAFF A FYNCHODD
BLASU	3
LEFEL 1	2
CYFANSWM	5

Recriwtio Staff

Hysbysebwyd un swydd wag yn ystod y flwyddyn

Edrych ymlaen

Mae CIC Powys yn gweithio'n galed i sicrhau ei ymrwymiadau o dan Ddeddf Safonau'r Gymraeg 2019. Mae digon eto i'w wneud cyn inni allu darparu gwasanaeth dwyieithog llawn. Tîm bach sydd ganddon ni a does yr un ohonyn nhw'n ddwyieithog. Fe wnawn ni adeiladu ar yr hyfforddiant Blasau a Lefel 1 sydd eisoes wedi digwydd a pharhau i weithio gyda CMGP ar ddarparu cyfleoedd i Aelodau a staff i ymarfer y Gymraeg. Fe wnawn ni sicrhau u y bydd unrhyw swyddi staff a hysbysebir yn allanol yn gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol/dymunol fel rhan o'r hysbyseb.

Atodiad A


CIC Powys – HUNANASESIAD O GYDYMFFURFIANT Â SAFONAU'R GYMRAEG Diwedd Mawrth 2023


Rhif	Thema	Manylion y safon	RAG	Sylwadau
GWYRDD – Mae ein CIC wedi sefydlu trefniadau clir ac mae'r rhain yn gyson yn gweithio'n dda				
AMBR – Mae ein CIC wedi sefydlu trefniadau clir ond dyd'r rhain ddim eto'n gyson yn gweithio'n dda. Mae angen i'n CIC wneud mwy i sicrhau cydymffurfiant				
COCH – Dydy ein CIC ddim wedi sefydlu trefniadau clir, neu dydy'r trefniadau a sefydlwyd ganddon ni ddim yn gweithio. Mae angen i'n CIC wneud mwy i sicrhau cydymffurfiant, ac efallai y bydd angen help arnon ni i wneud hyn.				
1	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os ydych yn derbyn gohebiaeth gan berson yn Gymraeg, mae'n rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes gofyn ateb), oni bai bod y person wedi nodi nad oes angen ateb yn Gymraeg.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 1 ym mhob achos, heblaw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan fyddwch yn derbyn gohebiaeth gan berson sy'n gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y 		Mae ganddon ni gymorth cyfieithu Cymraeg trwy gydweithwyr CIC ar gyfer gohebiaeth sensitif.

		person sy'n westai ichi.	
2	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn gohebu gydag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, mae'n rhaid ichi ofyn i A p'un ai a ydy A yn dymuno derbyn gohebiaeth ganddoch chi yn Gymraeg, ac os ydy A yn ymateb trwy ddweud fod A yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, mae'n rhaid ichi -</p> <p>(a) gadw cofnod o ddymuniad A,</p> <p>(b) gohebu gydag A yn Gymraeg wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac</p> <p>(c) anfon unrhyw ffurflenni sydd angen i A eu cwblhau o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p>	<p>Rydyn ni wedi gwneud ceisiadau gweithredol i ohebwy'r rheolaidd am eu dewis iaith trwy neges ddwyieithog safonol -</p> <p>"Bore da/Prynhawn da</p> <p>Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich dewis iaith er mwyn gallu gohebu â chi yn yr iaith honno. A wnewch chi gadarnhau drwy ymateb i'r neges hon a hoffech i mi ysgrifennu atoch, neu siarad â chi yn Gymraeg, Saesneg neu iaith arall.</p> <p>Diolch o galon</p> <p>Good morning/Good afternoon</p> <p>I am writing to seek your language preference in order to correspond with you in your language of choice. Please can you confirm by way of reply if you wish for me to write to or speak with you in</p>

			<p>Welsh, English or another language.”</p> <p>Gofynnir i gleientiaid eiriolaeth am eu dewis iaith ar adeg y cyswllt cyntaf ac fe gofnodir hyn o fewn eu cofnod Datix.</p> <p>Taenlen mewnol ydy mewngofnod dewis iaith CIC Powys – ni ellir ei hatodi gan fod aelodau cyfrannog o’r cyhoedd yn cael eu henwi arni.</p>
--	--	--	---

3	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth wedi'i gyfeirio at un neu fwy o unigolion sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, mae'n rhaid ichi ofyn p'un ai a ydyn nhw'n dymuno derbyn gohebiaeth ganddoch chi yn Gymraeg; ac os -</p> <p>(a) ydy pob unigolyn yn ymateb trwy ddweud eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid ichi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen wrth anfon gohebiaeth wedi'i gyfeirio at bob un o'r unigolion hynny;</p> <p>(b) ydy un (ond nid pawb) o'r unigolion yn ymateb i ddweud ei bod e neu hi am dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid ichi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw a darparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth o hynny ymlaen wrth anfon gohebiaeth wedi'i gyfeirio at bob un o'r unigolion hynny.</p>	<p>Cofnodir dewis iaith Cymraeg cleientiaid eiriolaeth ar eu cofnod Datrix unigol ac fe ddefnyddir y dewis hwnnw yn ystod eu galwad neu e-bost gyntaf i'r swyddfa trwy daflen wybodaeth Datrix. Oherwydd cyfrinachedd, ni allwn gysylltu tystiolaeth gohebiaeth.</p> <p>Cofnodir dewis iaith unigolion eraill (rhanddeiliaid) ar daenlen fewnol sydd wedi'i chadw oddi fewn i'r gyriant a rennir ganddon ni.</p>
---	----------------------	--	--


4	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl person, mae'n rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 4 ym mhob achos, heblaw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl person, a phob un o'r personau hynny wedi eich hysbysu nad ydyn nhw'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg; neu ▪ pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl person, a bod pob un o'r personau hynny'n gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n westai ichi. 	<p>Gall hyn gynnwys rhestrau dosbarthu e-bys at liaws o staff y GIG (heblaw Powys), oni bai eich bod yn gwybod fod pob unigolyn ar y rhestr ddosbarthu eisoes wedi rhoi eu dewis iaith ac wedi'u mewngofnodi ar y daenlen fewnol.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys llythyrau, arolygon, cylchlythyrau, cyhoeddiadau adroddiadau ayyb. a anfonir at liaws o randdeiliaid allanol ac aelodau'r cyhoedd.</p> <p>Enghraifft 1 –</p> <div style="text-align: center;">  <p>Meeting Poster MONTGOMERY - APR</p> </div>
---	-----------------------	--	---

5	Cydfllen wi Gwasan aethau	<p>Os nad ydych chi'n gwybod p'un ai a ydy person yn dymuno derbyn gohebiaeth ganddoch chi yn Gymraeg, pan fyddwch yn cyfathrebu â'r person hwnnw/honno, mae'n rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 5 ym mhob achos, heblaw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan fyddwch chi'n gohebu â person sy'n gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Teaching Health Board fel y person sy'n westai ichi. 		<p>Fel uchod. Enghraifft 2 –</p>  <p>New Standard Letter for Welcome Packs.dc</p>
6	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Os ydych chi'n cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o'r ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffarfiol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os ydy'r fersiwn Saesneg wedi'i llofnodi, neu os ydy manylion cyswllt yn cael eu daparu ar y fersiwn Saesneg, yna mae gofyn i'r fersiwn Gymraeg cael ei thrin</p>		<p>Llythyrau croeso, hysbysiadau cyhoeddus. Mae unrhyw ddogfen sy'n cael ei chynhyrchu yn Saesneg a Chymraeg, ag sy'n gofyn cael llofnod, yn cael eu llofnodi ar y ddwy ddogfen.</p>

		yn yr un ffordd).		
7	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Mae'n rhaid ichi ddatgan:</p> <p>(a) mewn gohebiaeth, ac</p> <p>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n wahodd personau i ymateb ichi neu i ohebu gyda chi, eich bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ymateb yn Gymraeg, ac na fyddai gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio gyda safon 7 ym mhob achos, heblaw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ mewn gohebiaeth, a chyhoeddiadau a hysbysiadau at bersonau sy'n gweithredu yn rhinwedd cynrychioli: <ul style="list-style-type: none"> - Cyngor Iechyd Cymuned; neu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Teaching Health Board fel y person sy'n westai ichi. 		<p>Mae pob llythyr safonol a phatrymluniau gyda phennawd llythyr CIC wedi'u diweddarau gyda'r datganiad ac fe ddylai pob llofnod e-bost staff unigol arddangos y datganiad.</p> <p>Enghraifft 3 –</p> <p>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb oedi.</p> <p>We welcome correspondence in Welsh. We will respond in Welsh without delay.</p>

8	Cyflenw i Gwasanaeth	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinellau cymorth neu rifau canolfan galwadau, mae'n rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn neges yn rhoi'r opsiwn o bwysu 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ceisiadau am alwad yn Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.
9	Cyflenw i Gwasanaeth	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinellau cymorth neu rifau canolfan galwadau, mae'n rhaid ichi hysybu'r person fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn neges yn rhoi'r opsiwn o bwysu 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ceisiadau am alwad yn Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.
10	Cyflenw i Gwasanaeth	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinellau cymorth neu rifau canolfan galwadau, mae'n rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os mai dyna ddymuniad y person hyd nes ei bod — (a) yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad at		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn neges yn rhoi'r opsiwn o bwysu 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ceisiadau am alwad yn Gymraeg

		<p>aelod o staff sydd ddim yn siarad Cymraeg sy'n medru darparu gwasanaeth ar y mater penodol dan sylw; ac</p> <p>(b) nad oes siaradwr Cymraeg ar gael o blith aelodaju'r staff i ddarparu gwasanaeth ar y mater penodol dan sylw.</p>		<p>wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.</p>
11	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, rhifau llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg..</p>		<p>Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021, sy'n cynnig y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
12	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Os ydych chi'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, ar unrhyw linellau cymorth neu rifau canolfannau galwadau, mae'n rhaid i'r rhif ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg fod yr un un ag ar gyfer y gwasanaeth Saesneg cyfatebol..</p>		<p>Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob rhif ffôn yn darparu gwasanaeth Saesneg a Chymraeg.</p>
13	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau llinellau cymorth neu rifau canolfannau galwadau, mae'n rhaid ichi ddatgan (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.</p>		<p>Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn yr opsiwn o bwyso 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, yn Gymraeg a Saesneg. Mae ceisiadau am alwad yn y Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.</p>

				Darperir enghraifft o wefan -  Screen Shot of welcome calls in Engli
14	Cyflenw i Gwasan aeth	Os oes ganddoch chi ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, mae'n rhaid ichi sicrhau nad ydy'r dangosyddion perfformiad hynny'n trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol i alwadau a wneir yn Saesneg.		Ddim yn berthnasol Dim ond yn gymwys os ydy Dangosyddion Perfformiad yn cael eu cymhwyso.
15	Cyflenwi Gwasanaeth	Mae'n rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn hysbysu personau sy'n galw, yn Gymraeg, bod modd iddyn nhw adael neges yn Gymraeg.		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn yr opsiwn o bwyso 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, yn Gymraeg a Saesneg. Mae ceisiadau am alwad yn y Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd, lle mae modd iddyn nhw adael neges os ydyn nhw'n dymuno gwneud.
16	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu unrhyw rifau llinellau cymorth neu rifau canolfannau galwadau, mae'n rhaid ichi hysbsu personau sy'n galw, yn Gymraeg		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn yr opsiwn o bwyso 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, yn Gymraeg a Saesneg. Mae

		(trwy gyfrwng neges wedi'i awtomeiddio neu fel arall), pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.		ceisiadau am alwad yn y Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.
17	Cyflenw i Gwasanaeth	Os ydy person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys rhifau ffôn uniongyrchol aelodau'r staff), a bod y person hwnnw/honno'n dymuno derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, mae'n rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg nes ei bod hi'n – (a) angenrheidiol trosglwyddo'r alwad at aelod o'r staff sydd ddim yn siarad Cymraeg ond sy'n medru darparu gwasanaeth ar fater pwnc penodol ac (b) nad oes aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y mater pwnc penodol hwnnw.		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn yr opsiwn o bwysio 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, yn Gymraeg a Saesneg. Mae ceisiadau am alwad yn y Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.
18	Cyflenw i Gwasanaeth	Pan fo person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (p'un ai'n rif llinell uniongyrchol adran neu rif llinell uniongyrchol aelod staff), mae'n rhaid ichi sicrhau, wrth gyfarch y person, nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.		Cyflwynwyd system llinellau ffôn newydd ar 31.10.2021. Mae pob galwr yn derbyn yr opsiwn o bwysio 1 am y Gymraeg a 2 am Saesneg, yn Gymraeg a Saesneg. Mae ceisiadau am alwad yn y Gymraeg wedyn yn mynd at siaradwr

				Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd.
19	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, mae'n rhaid ichi ofyn i A p'un ai a ydy A yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg, ac os ydy A yn ymateb gan ddweud eu bod yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg, mae'n rhaid ichi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, a chynnal galwadau ffôn a wneir at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.		<p>Gofynnir i bob unigolyn sy'n cysylltu â ni, neu y cysylltir â nhw yn gyntaf, am eu dewis iaith.</p> <p>Cleientiaid eiriolaeth – cofnodir eu dewis iaith yn eu cofnod Datix unigol ac ni ellir ei atodi fel tystiolaeth oherwydd.</p> <p>Cofnodir pob rhanddeiliad arall ar y daenlen dewis iaith fewnol.</p> <p>Enghraifft 4 – Taenlen fewnol – ni ellir ei hatodi gan fod aelodau cyfrannog o'r cyhoedd yn cael eu henwi arni.</p>
20	Cyflenw i Gwasan aeth	Mae'n rhaid i unrhyw systemau ffôn awtomataidd sydd ganddoch chi ddarparu'r gwasanaeth awtomataidd cyflawn yn Gymraeg.		Mae ein holl negeseuon oriau gwaith a thu allan i oriau awtomataidd i gyd yn ddwyieithog.

21	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Os ydych chi'n gwahodd un person yn unig ("P") i gyfarfod —</p> <p>(a) mae'n rhaid ichi ofyn i P p'un ai a ydy P yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, daparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg i'r diben hwnnw, ac</p> <p>(b) os ydy P wedi eich hysbysu fod P yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae'n rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 21 ym mhob achos, heblaw:</p> <p>Pan fyddwch chi'n gwahodd person i gyfarfod yn rhinwedd cynrychioli:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n westai ichi. <p>pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod</p>	<p>Cleientiaid eiriolaeth – Cymerir dewis iaith cleientiaid ar ddechrau eu cyhswllt â'r gwasanaethfelly, does dim angen ichi ofyn i'r cleient eto pa rai ydy eu dewisiadau iaith ar gyfer y cyfarfodydd.</p> <p>Ymweliadau – mae'r hymweliadau "ar hap" y cyfeirir atyn nhw yn ymweliadau CIC â wardiau ac adrannau ayyb. ac felly wedi'u heithrio o'r safonau.</p> <p>Rhanddeiliaid, e.e. mudiadau ynghlwm â'r GIG/Iechyd – os gwahoddir person i gyfarfod, gofynnir iddyn nhw am eu dewis iaith ac fe gofnodir hyn ar y daenlen fewnol.</p> <p>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, bydd unrhyw geisiadau am gyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnal trwy TEAMS, sy'n cynnal nifer o sianeli i bobl ddewis eu ddewis iaith i'r cyfarfod. Comisiynir cyfieithydd proffesiynol yn gymorth i'r sianel Gymraeg.</p>
----	----------------------	---	--

		<p>fel rhan o ymweliad ar hap:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan drefnir cyfarfod ar ddiwrnod yr ymweliad; a ▪ phan nad ydy hi'n bosib cynnal cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. 	
22	Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Os ydych chi'n gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, mae'n rhaid ichi ofyn i bob person p'un ai a ydyn nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 22 ym mhob achos, heblaw:</p> <p>Pan fyddwch chi'n gwahodd personau i gyfarfod yn rhinwedd cynrychioli:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n westai ichi. <p>pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliad ar hap:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan drefnir cyfarfod ar ddiwrnod yr ymweliad; a ▪ phan nad ydy hi'n bosib cynnal cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. 	<p>Cleientiaid eiriolaeth – Cymerir dewis iaith cleientiaid ar ddechrau eu cyswllt â'r gwasanaeth felly, does dim angen ichi ofyn i'r cleient eto pa rai ydy eu dewisiadau iaith ar gyfer y cyfarfodydd.</p> <p>Os down ni'n ymwybodol fod cleient yn dymuno dod â chefnogaeth bellach megis ffrind neu berthynas i gyfarfod, yna fe ofynnir i bob mynychwr pellach beth ydy eu dewis iaith ac fe gofnodir hyn ar prif gofnod Datix y cleient yn y log Gweithredu ar y diwrnod y derbyniwyd y cais gan y gwasanaeth.</p> <p>Ymweliadau – mae'r hymweliadau "ar hap" y cyfeirir atyn nhw yn ymweliadau CIC â wardiau ac</p>

			<p>adrannau ayyb. ac felly wedi'u heithrio o'r safonau.</p> <p>Rhanddeiliaid, e.e. mudiadau ynghlwm â'r GIG/Iechyd – os gwahoddir mwy nag un person i gyfarfod, gofynnir iddyn nhw am eu dewis iaith ac fe gofnodir hyn ar y daenlen fewnol</p> <p>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, bydd unrhyw geisiadau am gyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnal trwy TEAMS, sy'n cynnal nifer o sianeli i bobl ddewis eu ddewis iaith i'r cyfarfod. Comisiynir cyfieithydd proffesiynol yn gymorth i'r sianel Gymraeg.</p>
22A	Cyflenwi Gwasanaeth	Os ydych chi wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r personau a wahoddwyd wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae'n rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu dilynol o'r Gymraeg i Saesneg fod ar gael yn y	Fel uchod (22)

		<p>cyfarfod.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 22A ym mhob achos, heblaw:</p> <p>Pan fyddwch chi'n gwahodd personau i gyfarfod yn rhinwedd cynrychioli:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n westai ichi. <p>pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliad ar hap:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan drefnir cyfarfod ar ddiwrnod yr ymweliad; a ▪ phan nad ydy hi'n bosib cynnal cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. 		
22C H	Cyflenwi Gwasanaeth	Os ydych chi wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pob un o'r personau a wahoddwyd wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae'n rhaid ichi gynnal y		Fel uchod (22)



		<p>cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu dilynol o'r Gymraeg i Saesneg fod ar gael yn y cyfarfod.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 22CH ym mhob achos, heblaw:</p> <p>Pan fyddwch chi'n gwahodd personau i gyfarfod yn rhinwedd cynrychioli:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyngor Iechyd Cymuned; neu ▪ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel y person sy'n westai ichi. <p>pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliad ar hap:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ pan drefnir cyfarfod ar ddiwrnod yr ymweliad; a ▪ phan nad ydy hi'n bosib cynnal cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. 		
26	Cyflenw i Gwasanaeth	Os ydych chi'n trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd a lle caniateir cyfranogiad y cyhoedd, maen rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, fod croeso i unrhyw un sy'n mynychu i ddefnyddio'r		Mae holl hysbysiadau cyhoeddus a llythyrau penodol i'r cyhoedd yn cynnwys datganiad ynghylch gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y CIC.

		Gymraeg yn y cyfarfod.		
27	Cyflenw i Gwasanaeth	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i cyfarfod a drefnwyd ganddoch chi, sy'n agored i'r cyhoedd a lle caniateir cyfranogiad gan y cyhoedd, mae'n rhaid ichi anfon y gwahoddiadau yn Gymraeg.		Mae holl hysbysiadau cyhoeddus a llythyrau penodol i'r cyhoedd yn cynnwys datganiad ynghylch gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y CIC.
28	Cyflenw i Gwasanaeth	Os ydych chi'n gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod a drefnwyd ganddoch chi, sy'n agored i'r cyhoedd a lle caniateir cyfranogiad gan y cyhoedd, mae'n rhaid ichi — (a) ofyn i bob person a wahoddwyd i siarad p'un ai ei fod e neu hi yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac (b) os ydy'r person hwnnw/honno (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi eich hysbysu ei fod e neu hi'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu dilynol o'r Gymraeg i Saesneg i'r diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).		Cyfarfodydd cyhoeddus – Gofynnir i bob siaradwr os ydyn nhw'n dymuno cyflwyno yn Gymraeg, e.e. staff y GIG neu gyflwyniadau rhanddeiliaid. Cofnodir eu dewis iaith ar y daenlen fewnol y cyfeirir ati uchod mewn ymateb i safonau eraill. Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, bydd unrhyw geisiadau am gyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnal trwy TEAMS, sy'n cynnal nifer o sianeli i bobl ddewis eu ddewis iaith i'r cyfarfod. Comisiynir cyfieithydd proffesiynol yn gymorth i'r sianel Gymraeg.


29	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Os ydych chi'n trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd a lle caniateir cyfranogiad gan y cyhoedd, mae'n rhaid ichi sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ar gael yn y cyfarfod, ac mae gofyn ichi hysbysu'r rhai sy'n bresennol, ar lafar, yn Gymraeg —</p> <p>(a) bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 29 ym mhob achos, heblaw:</p> <ul style="list-style-type: none"> where an invitation or material advertising a meeting has asked the public to inform you whether they wish to use the Welsh language, and none of them have informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting. 	<p>Mae'r amrywiad i'r safon hwn yn golygu ein bod yn medru gwneud cais am ofynion Cymraeg y cyhoedd cyn amser penodol cyn i'r cyfarfod cyhoeddus ddechrau.</p> <p>Felly, rydyn ni'n gofyn am gofrestriadau ynghylch y Gymraeg 7 niwrnod neu fwy cyn dyddiad y cyfarfod.</p> <p>Os na dderbynnir cofrestriadau cyn yr amser hwn, yna rydyn ni wedi'n heithrio o'r gofynif i'r safon hwn gynnig cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod i unigolion neu bersonau na chofrestrodd eu dewis ymlaen llaw.</p> <p>Ar gyfer cyfarfodydd Byw ar-lein, bydd unrhyw geisiadau am gyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnal trwy TEAMS, sy'n cynnal nifer o sianeli i bobl ddewis eu ddewis iaith i'r cyfarfod. Comisiynir cyfieithydd proffesiynol yn gymorth i'r sianel Gymraeg.</p>
----	----------------------	---	---

30	Cyflenw i Gwasan aeth	Os ydych chi'n cynhyrchu ac arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod a drefnir ganddoch chi sy'n agored i'r cyhoedd, mae'n rhaid ichi sicrhau fod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, ac ni ddylech drin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.		Mae pob bwrdd ac arwydd arddangos yn ddwyieithog.
31	Cyflenw i Gwasan aeth	Os ydych chi'n trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o'r diigwyddiad, mae'n rhaid ichi sicrhau, wrth hyrwyddo'r digwyddiad, nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg (er enghraifft, yn y modd mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu'i gyhoeddi).		Mae pob hysbysiad cyhoeddus (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol) a llythyrau penodol i'r cyhoedd yn gwahodd i gyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn cael eu cyhoeddi/hyrwyddo ar yr un pryd. Gweler enw trydar @powys_chc a Facebook "Cyngor Iechyd Cymuned Powys".
32	Cyflenw i Gwasan aeth	Os ydych chi'n trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o'r diigwyddiad, mae'n rhaid ichi sicrhau nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg yn y diwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n mynychu'r digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion rydych chi'n eu cynhyrchu a'u arddangos yn y digwyddiad		Mae digwyddiadau cyhoeddus yn golygu "stondin ymgysylltu" ar gyfer CIC, e.e. ein stondin mewn digwyddiad cyhoeddus ehangach lle bydd ein staff a'n haelodau'n mynychu i godi ymwybyddiaeth o CIC ayyb. Mae holl arwyddion a deunydd arddangos yn ddwyieithog.

		<p>ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir yn y digwyddiad).</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 32 ym mhob achos, heblaw mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad.</p> <p>Mewn oerthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir, mae'n rhaid ichi gydymffurfio ym mhob achos, heblaw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ lle bo gofyn i gynrychiolydd sydd ddim yn siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar fater pwnc penodol; a ▪ wlle nad oes cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i ▪ ddarparu gwasanaeth ar fater pwnc penodol. 		<p>Dydyn ni ddim yn ymgymryd â chyhoeddiadau sain.</p>
33	Cyflenw i Gwasanaeth	<p>Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu a gynhyrchir ganddoch chi gael ei gynhyrchu yn Gymraeg, ac os ydych yn cynhyrchu'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni ddylech drin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Mae'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn ddwyieithog ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un amser.</p> <p>Enghraifft –</p>

				<div data-bbox="1451 145 2141 694"> <p>ys Community ... Edit Call Now Promote View as visitor</p> <p>Powys Community Health Council Published by Naren CHC · 9 February at 10:58 · </p> <p>Please see feedback below of a Powys resident's experience of receiving their first vaccination.</p> <p>"I had my first vaccination yesterday evening at Newtown Leisure Centre. I had put my name on the last minute call form and got an email at 4.30 to be there anytime up to 6.30. It went fine. Plenty of room in the car park and calm friendly staff.</p> <p>It was about a 20 minute wait, but most of the time was sitting down - good stewarding to keep the queue moving, remember who was ... See more</p> <p>ys Community ... Edit Call Now Promote View as visitor</p> <p>Powys Community Health Council Published by Naren CHC · 9 February at 10:59 · </p> <p>Gweler yr adborth isod o brofiad preswlydd Powys o dderbyn ei frechiad cyntaf.</p> <p>"Cefais fy mrechriad cyntaf nos ddoe yng Nghanolfan Hamdden y Drenewydd. Roeddwn i wedi rhoi fy enw ar y ffurflen alwad munud olaf a chefais e-bost am 4.30 i fod yno unrhyw bryd hyd at 6.30. Aeth yn iawn. Digon o le yn y maes parcio a staff cyfeillgar.</p> <p>Roedd yr amser aros tua 20 munud, ond roedd y rhan fwyaf o'r amser yn eistedd i lawr - stiwardio da i gadw'r ciw i symud, cofio pwy oedd nesaf a g... See more</p> </div>
34	Cyflenw i Gwasan aeth	Dylid arddangos unrhyw ddeunydd rydych chi'n ei gynhyrchu yn gyhoeddus yn Gymraeg, ac ni ddylech drin fersiwn Gymraeg y deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.		<p>Fel uchod, mae deunydd a holl fyrddau arddangos ac arwyddion dros dro yn ddwyieithog ac yn cael eu defnyddio ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys taflenni, cylchlythyrau, cynllun gweithredol ayyb.</p>
36	Cyflenwi Gwasanaeth	Os ydych yn cynhyrchu ffurflen sydd i'w chwblhau gan unigolyn, mae'n rhaid ei chynhyrchu yn y Gymraeg.		<p>Cynigir pob arolwg a ffurflen mewn fersiwn Saesneg/Cymraeg.</p> <p>Enghreifftiau</p> <div data-bbox="1451 1209 1870 1332">  Dental Practice Survey - Last Updatec  Dental Practice Survey - Last Updatec </div>

37	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Os ydych chi'n cynhyrchu dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu fwy o unigolion, mae'n rhaid ei chynhyrchu yn y Gymraeg -</p> <p>(a) os ydy mater pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn y Gymraeg, neu</p> <p>(b) os ydy'r gynulleidfa disgwylidig, a'u disgwyladau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn y Gymraeg.</p>		<p>Cynhyrchir holl ddogfennau cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg. Ceir yr holl dystiolaeth trwy ein gwefan a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol Mae hyn yn cynnwys taflenni, cylchlythyrau, hysbysiadau cyhoeddus, amserlenni cyfarfodydd, arolygon ayyb.</p>
38	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Os ydych chi'n cynhyrchu dogfen neu ffurflen yn Gymraeg a Saesneg, mae'n rhaid ichi —</p> <p>(a) beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (p'un ai'n fersiynau ar wahân ai peidio);</p> <p>(b) beidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft, mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau i gyflwyno'r ffurflen).</p>		<p>Does yr un o ffurflenni na dogfennau CIC yn gosod gwahanol ddyddiadau cau ar gyfer fersiynau neu ymatebion yn Gymraeg a Saesneg.</p>

39	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Mae'n rhaid ichi sicrhau bod —</p> <p>(a) testun pob tudalen o'ch gwefan ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn weithredol, ac</p> <p>(c) nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.</p>		<p>Mae dwy fersiwn ein gwefan, y Gymraeg a'r Saesneg, wedi'u diweddarau'n llawn ac yn weithredol:</p> <p>Saesneg - https://powyschc.nhs.wales/</p> <p>Cymraeg - https://powyscic.gig.cymru/</p>
42	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Os oes ganddoch chi dudalen we Gymraeg sy'n cyfateb i dudalen we Saesneg, mae'n rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen we Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae'n rhaid ichi ddarparu dolen-gyswllt at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p>		<p>Mae gan y dudalen Saesneg ddolen-gyswllt uniongyrchol at y fersiwn Gymraeg yn y bar dewislenni. Mae gan bob dudalen y ddolen-gyswllt hon at y dudalen gyfatebol yn Gymraeg.</p> <p>Enghraifft –</p> 
43	Cyflenw i	<p>Mae'n rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen eich gwefan yn</p>		<p>Mae'r fersiynau Saesneg/Cymraeg yn ddrych o'i gilydd yn nhermau</p>

	Gwasan aeth	Gymraeg.		opsiynau'r ddewislen a'r rhyngwyneb. Gweler dolenni-cyswllt y we o dan yr ymateb i safon 39.
44	Cyflenw i Gwasan aeth	Mae'n rhaid i bob ap a gyhoeddir ganddoch chi fod yn gwbl weithredol yn Gymraeg, ac ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r ap hwnnw.		Nid ni sydd berchen ag ap Surveyme, ond mae pob arolwg a gyhoeddir trwy Surveyme yn ddwyieithog.
45	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan fyddwch chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 45 dan yr amgylchiadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol. 		Cyflwynir pob postiad yn Gymraeg ac yna yn Saesneg yn syth ar ôl ei gilydd. Gweler enw trydar: @powys_chc Gweler dolen Facebook Cyngor Iechyd Cymuned Powys Gweler Safon 33.
46	Cyflenw i Gwasan aeth	Os ydy person yn cysylltu â chi trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, mae'n rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).		Pe byddai ateb yn cael ei dderbyn yn Gymraeg trwy lwyfan ein cyfryngau cymdeithasol, fe fasen ni'n darparu ateb wedi'i gyfieithu. Mae ganddonni gyfieithiad Cymraeg



				mewnol yn ei le trwy Fwrdd CICau. Hyd yn hyn, dydy hyn ddim wedi digwydd, felly does dim modd inni gyflwyno tystiolaeth.
47	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan fyddwch chi'n — (a) codi arwydd newydd neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys awyddion dros dro); neu (b) gyhoeddi neu arddangos hysbysiad, mae'n rhaid i unrhyw destun a ddangosir ar yr arwydd neu'r hysbysiad ymddangos yn Gymraeg (p'un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad ag y ceir y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân); ac os yr arddangosir yr un testun yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni ddylech drin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.		Mae holl arwyddion mewnol ac arwyddion ymgysylltu dros dro i gyd yn ddwyieithog.
48	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan fyddwch chi'n — (a) codi arwydd newydd neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys awyddion dros dro); neu (a) gyhoeddi neu arddangos hysbysiad; sy'n		Gosodir arwyddion swyddfa yn nhrefn Cymraeg ac yna Saesneg i sicrhau mai'r Gymraeg a welir yn gyntaf. Mae lleoliadau arwyddion a'r

		cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'n rhaid gosod y testun Cymraeg mewn ffordd lle mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.		tebygolrwydd o weld yh Gymraeg yn gyntaf ar arwydd yn mynd i ddibynnu ar ba gyfeiriad y daw'r person tuag at yr arwydd. E.e. mae ein baneri ymgysylltu dros dro bob amser yn cael eu gosod ochr yn ochr a bob amser mewn man agored i ganiatáu i'r cyhoedd i nesáu o'r chwith neu'r dda, felly mae lleoliad y Gymraeg yn gyntaf yn mynd i ddibynnu ar lwybr y cyhoedd, rhywbeth na ellir ei ragweld. Rydyn ni'n cymdymffurfio oherwydd bod gwelededd y Gymraeg o'r Saesneg yn glir.
49	Cyflenw i Gwasan aeth	Mae'n rhaid ichi sicrhau fod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir yn nhermau ystyr a mynegiant.		Mae'r testun Cymraeg ar ein harwyddion wedi'i gyfieithu trwy gwmni allanol ac mae'r ffioedd ar gyfer y cyfieithu proffesiynol yn cynnwys ail berson yn prawf-ddarllen cyn cael ei ddychwelyd aton ni.
57	Cyflenw i Gwasan aeth	Mae'n rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontractau a gyhoeddir ganddoch chi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os ydy mater pwnc y contract yn awgrymu y dylid ei		Ddim yn berthnasol – dydyn ni ddim yn ymgymryd â'r gwaith hwn.




		gynhyrchu yn Gymraeg, ac ni ddylech drin fersiwn Gymraeg unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.		
58	Cyflenw i Gwasan aeth	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, mae'n rhaid ichi —</p> <p>(a) ddatgan yn y gwahoddiad y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fyddai tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg, a</p> <p>(b) dim i drin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau i dderbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r amserlin ar gyfer hysbysu tendrwr am benderfyniadau).</p>		Ddim yn berthnasol – dydyn ni ddim yn ymgymryd â hyn.
59	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan fyddwch yn hysbysu tendrwr o'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, mae'n rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cafodd y tendr ei gyflwyno yn Gymraeg.		Ddim yn berthnasol – dydyn ni ddim yn ymgymryd â hyn.
60		Mae'n rhaid ichi hyrwyddo unrhyw		Mae pob gohebiaeth yn gwahodd galwad neu ohebiaeth yn Gymraeg

	Cyflenw i Gwasanaeth	wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddoch chi, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	<p>neu Saesneg, mae hyn yn bresennol yn ein negeseuon galwadau awtomatig, pob patrymlun penllythyr, gwefan, taflenni ayyb.</p> <p>Enghraifft - gwefan</p> <p><small>Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wefan hon neu'r wybodaeth a gynhwysir ynddi, gallwch gysylltu â ni drwy'r post, e-bost neu ffôn. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.</small></p> <p><small>If you have any questions about this site or the information contained within it, you can contact us by telephone, post or e-mail. We welcome correspondence in both Welsh and English.</small></p>
61	Cyflenw i Gwasanaeth	Os ydych chi'n darparu gwasanaeth yn y Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth a ddarperir ganddoch chi yn Saesneg, ma'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen a gynhyrchir ganddoch chi, neu wefan a gyhoeddir ganddoch chi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg, hefyd ddatgan fod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn y Gymraeg.	<p>Bydd taflenni presennol ynghylch swyddogaethau CIC yn parhau i gael eu dosbarthu (yn ôl cyngor Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg).</p> <p>Bydd argraffiadau newydd yn cynnwys testun ychwanegol i gwrdd â'r safon hwn.</p> <p>Mae ein gwefan yn datgan fod y Gwasanaeth Eiriolaeth hefyd ar gael yn Gymraeg trwy'r datganiad:</p> <p>This service is available in Welsh</p> <p>Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn Gymraeg</p> <p>Rydyn ni'n hyderus fod prosesau yn eu lle i gydymffurfio'n llawn â'r</p>

				safon hwn pan fydd y taflenni'n cael eu hailargraffu.
62	Cyflenw i Gwasan aeth	Pan fyddwch yn llunio, adolygu neu gyflwyno eich hunaniaeth corfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		Mae hunaniaeth corfforaethol yn ddwyieithog. Mae'r holl ddeunydd adnabod corfforaethol hefyd yn arddangos "CIC Powys CHC" neu'r teitl llawn lle cyflwynir y Gymraeg yn gyntaf.
63	Cyflenw i Gwasan aeth	Os ydych chi'n cynnig cwrs addysg i un neu fwy o unigolion, mae'n rhaid ichi — (a) ymgymryd ag asesiad am yr angen i gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg; (b) gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os ydy'r asesiad yn nodi bod angen cynnig y cwrs yn Gymraeg.		Gofynnir i'r staff i gyd os: a) ydyn nhw'n dymuno ymgymryd â chyrsgiau Cymraeg. b) oes cyrsiau eraill sydd ddim yn benodol at ddysgu Cymraeg angen eu cyflwyno yn Gymraeg. Os derbynnir cais fel hwn, fe fasen ni'n ei hwyluso. Hyd yn hyn, un aelod staff sydd wedi gofyn.
69	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu adolygu polisi presennol, mae'n rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (p'un ai'n gadarnhaol neu'n andwyol), fyddai'r penderfyniad polisi'n ei gael ar — (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a		Mae ein gofynion ynghylch y Gymraeg bellach yn ffurfio rhan o gynlluniau Cydraddoldeb blynyddol CICau. Mae ein Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u diweddarau i

		(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		<p>gynnwys cyfleoedd n y Gymraeg a pha safonau sy'n rhaid i bob prosiect a pholisi ystyried.</p> <p>Enghraifft</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;">   </div> <p>Agenda item 6 (Doc Agenda item 9 (Doc 5a) SMT Nov 2020 (U7g) SMT Nov 2020 (G</p>
70	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu polisi presennol, mae'n rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi presennol) fel bod y penderfyniad polisi yn effeithio'n gadarnhaol neu'n cynyddu'r effaith gadarnhaol, ar —</p> <p>(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Fel uchod

71	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu polisi presennol, mae'n rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi presennol) fel na fyddai'r penderfyniad polisi cael effaith andwyol, neu y byddai'n lleihau'r effeithiau andwyol, ar —</p> <p>(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		Fel uchod
72	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymynghorol sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae'n rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barn ar, yr effeithiau (p'un ai'n gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi hwnnw, sydd dan ystyriaeth, yn ei gael ar —</p> <p>(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Fel uchod.</p> <p>Hefyd,</p> <p>Pob blwyddyn, rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth yn gwahodd aelodau a phrif rhanddeiliaid eraill i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer datblygu ein cynllun gweithredol blynyddol (fel a ddisgrifir uchod). Roedd y sylwadau a dderbynnir ganddon ni'n ein helpu i benderfynu mewn ffordd</p>

				<p>gydgynhyrchiol sut y byddwn yn ffocysu ein gweithgareddau am y 12 mis nesaf a'n cynorthwyo ni wrth ddrafftio'r cynllun gweithredu blynyddol.</p> <p>Mae'r gwahoddiad a gyhoeddir, yn gwahodd cyfle cyfartal am ymateb yn Gymraeg a Saesneg, gweler isod.</p> <p>Enghraifft</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;"> <div style="text-align: center;">  <small>FINAL POWYS CHC Annual Report 2019-zAnnual Report 2019-2</small> </div> <div style="text-align: center;">  <small>FINAL POWYS</small> </div> <div style="text-align: center;">  <small>Email to Stakeholders.docx</small> </div> </div>
73	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch chi'n cyhoeddi dogfen ymgynghorol sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae'n rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barn ar, sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi sydd dan ystyriaeth fel ei bod yn effeithio'n gadarnhaol neu'n cynyddu'r effaith gadarnhaol, ar —</p> <p>(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p>		<p>Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71 a 72</p>

		(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg		
74	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghorol sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae'n rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barn ar sut y gallid llunio neu adolygu'r polisi dan sylw fel na fyddai'n cael effaith andwyol, neu y byddai'r effeithiau andwyol yn llai, ar — (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72 a 73
75	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n ymgymryd ag ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, mae'n rhaid ichi sicrhau fod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a ph'un ai'n gadarnhaol neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw'n ei gael ar — (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a		Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72, 73 a 74 Hefyd, Dydyn ni ddim yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil at ddibenion gwneud penderfyniadau "polisi". Fodd bynnag, gellir ystyried ein

		(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		<p>arolygon cyhoeddiedig ar-lein, sy'n hel data profiadau cyffredinol o'r GIG, fel ymchwil o ran y ffaith ein bod yn ceisio barn y cyhoedd ar eu profiadau, i nodi unrhyw dueddiadau sydd wedyn angen gweithredu arnyn nhw.</p> <p>Gall yr ymchwil hwn wedyn effeithio ar ein penderfyniadau strategol ar gyfer ymweliadau brys neu gamau gweithredu uwchgyfeirio uwch-swyddogion.</p> <p>Cyhoeddir pob arolwg ar-lein sy'n casglu data yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.</p>
76	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu beu'n ymgymryd ag ymchwil a fwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, mae'n rhaid ichi sicrhau fod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi dan sylw fel y byddai'n cael effaith cadarnhaol, neu		Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72, 73, 74 a 75

		<p>fel y byddai'n cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, ar —</p> <p>(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		
77	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n ymgymryd ag ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, mae'n rhaid ichi sicrhau fod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi dan sylw fel na fyddai'n cael effaith andwyol, neu fel y byddai'n lleihau'r effeithiau andwyol, ar —</p> <p>(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		<p>Fel uchod ar gyfer yr atebion a roddwyd yn 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75 a 76</p>
79	Gweithredol	<p>Mae'n rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hyrwyddo a hwyluso defnydd yr iaith, ac mae'n rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.</p> <p>Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon</p>		<p>Cynhyrchwyd gan Fwrdd y CICau a'i leoli ar y gyriant: N:\Agreed versions of guidance and standards for staff and CHCs\Welsh language\Using the welsh language internally (Interim</p>


		79 ym mhob achos, heblaw: <ul style="list-style-type: none"> cyhoeddi'r polisi ar eich mewnwyd. 		guide for staff and members - 30 May 2019) - ENGLISH.pdf
80	Gweithredol	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, mae'n rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw/honno p'un ai a ydy e/hi'n dymuno i'r contract cyflogaeth ar gyfer y gwasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os mai dyna ydy dymuniad yr unigolyn, mae'n rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg. Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 80 mewn perthynas â canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Aelodau cyfetholedig. 		Gofynnwn i ymgeiswyr llwyddiannus am eu dewis iaith ac yn cadw at eu dymuniadau. Hyd yn hyn, ni chafwyd cais o'r fath.
82	Gweithredol	Os ydych chi'n cyhoeddi unrhyw rai o'r canlynol, mae'n rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg - <ul style="list-style-type: none"> (a) polisi'n ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle; (b) polisi'n ymwneud ag iechyd a lles yn y gwaith; (c) polisi'n ymwneud â chyflogau neu fuddion yn y gweithle; (ch) polisi'n ymwneud â rheoli perfformiad; 		Cynhyrchir y dogfennau hyn gan Fwrdd y CICau a/neu Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Rhoddir dolenni-cyswllt neu ddogfennau uniongyrchol ynghylch yr wybodaeth yma i'n staff trwy'r Bwrdd neu Bowys. Cyhoeddir holl ddogfennau Powys yn Saesneg a Chymraeg

		<p>(d) polisi'n ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith;</p> <p>(dd) polisi'n ymwneud ag amodau gwaith;</p> <p>(e) polisi'n ymwneud â phatrymau gwaith.</p>		<p>http://nww.powysthb.wales.nhs.uk/accessing-workforce-and-od-policies</p>
83	Gweithredol	<p>Mae'n rhaid ichi ganiatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen eich bod wedi gosod allan eich gweithredfau ar gyfer gwneud cwynion fel y gall pob aelod o'r staff -</p> <p>(a) wneud cwyn ichi yn Gymraeg, ac</p> <p>(b) ymateb i gwyn a wnaed amdano e neu amdani hi yn Gymraeg; ac mae'n rhaid ichi hefyd hysbysu pob aelod o'r staff o'r hawl hwnnw.</p>		<p>Cynhyrchir y dogfennau hyn gan Fwrdd y CICau.</p> <p>  FINAL - MAKING A COMPLAINT ABOUT COMPLAINT ABOUT</p> <p>  Using the welsh language internally Using the welsh language internally</p>
84	Gweithredol	<p>Os ydych yn derbyn cwyn gan aelod staff neu gwyn ynghylch aelod staff, a bod gofyn cael cyfarfod gyda'r aelod staff hwnnw/honno, mae'n rhaid ichi -</p> <p>(a) gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, darparu gwasanaeth</p>		<p>Fel uchod ar gyfer ateb i Safon 83</p>

		cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg at y pwrpas hwnnw; ac os ydy'r aelod staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithui ar y pryd neu gyfieithu dilynol o'r Gymraeg i Saesneg.		
85	Gweithredol	<p>Pan fyddwch yn hysbysu aelod o staff (A) o benderfyniad y daethoch iddi mewn perthynas â chwyn a wnaed gan A, anu mewn perthynas â chwyn a wnaed yn erbyn A, am e'n rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os ydy A -</p> <p>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn am A, (c) wedi gofyn i gyfarfod ynglŷn â'r gŵyn gael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.</p>		Fel uchod ar gyfer ateb i Safon 83 ac 84

86	Gweithredol	<p>Mae'n rhaid ichi -</p> <p>(a) ganiatáu a datgan mwn unrhyw ddogfen sydd ganddoch chi sy'n gosod allan eich trefniadau am ddisgyblu staff y gall unrhyw aelod staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw gyhuddiadau a wnaed yn ei (h)erbyn, ac</p> <p>(b) os ydych chi'n dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod staff, hysbysu'r aelod hwnnw/honno o'r hawl hwnnw.</p>		<p>Mae'r hawl hwn i'w weld ym Mholisi a Gweithdrefn Disgyblu Cymru Gyfan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys HR010</p>
87	Gweithredol	<p>Os ydych chi'n trefnu cyfarfod gydag aelod staff ynghylch mater disgyblu sy'n ymwneud â'i ymddygiad e neu hi, maed'n rhaid ichi -</p> <p>(a) gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, i ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg i'r diben hwnnw; ac</p> <p>(b) os ydy'r aelod staff yn dymuno i'rcyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth</p>		<p>Mae'r hawl hwn i'w weld ym Mholisi a Gweithdrefn Disgyblu Cymru Gyfan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys HR010</p>

		cyfieithu ar y pryd neu gyfieith' dilynolo'r Gymraeg i'r Saesneg.		
88	Gweithredol	Pan fyddwch yn hysbysu aelod staff ("A") o bendeffyniad y daethoch iddo yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, mae'n rhaid i chi wneud nhyunny yn Gymraeg os ydy A - (a) wedi ymateb i'r cyhuddiadau yn erbyn A yn Gymraeg, (b) wedi gofyn am gyfarfod ynghylch y weithdrefn ddisgyblu i'w gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynghylch y weithdrefn ddisgyblu.		Mae'r hawl hwn i'w weld ym Mholisi a Gweithdrefn Disgyblu Cymru Gyfan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys HR010
89	Gweithredol	Mae'n rhaid ichi ddarparu meddalwedd cyfrifiadurol i staff ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (lle bo rhyngwyneb yn bodoli).		Mae meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg wedi'i osod ar fewngofnodion holl staff CIC trwy ap Cysgeir Enghraifft -

				
97	Gweithredol	<p>Mae'n rhaid ichi ddarparu cyfleoedd hyfforddiant yn y Gymraeg yn y meysydd canlynol, os ydych chi'n darparu'r fath hyfforddiant yn Saesneg -</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwynion a disgyblu; (ch) anwytho; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch. 		<p>Os ydy'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i staff yn ein CIC, fe fasen ni'n darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae holl aelodau staff CIC Powys yn mynychu hyfforddiant - Blasu neu Lefel 1 gyda Nant Gwrtheyrn ym Mawrth/Ebrill 2022.</p> <p>Mae holl aelodau CIC Powys yn mynychu sesiwn Cymraeg llafar ym mis Mawrth gyda Dysgu Cymraeg. Mae'r staff a'r aelodau i gyd wedi derbyn cardiau Flach i'w helpu gyda Chymraeg sylfaenol.</p>

98	Gweithredol	<p>Mae'n rhaid i chi ddarparu cyfleoedd am hyfforddiant yn Gymraeg ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; a (c) gweithdrefnau cwynion a disgyblu. 		<p>Os ydy'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i staff ein CIC, fe fasen ni'n darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae holl aelodau staff CIC Powys wedi mynychu hyfforddiant - Blasu neu Lefel 1 gyda Nant Gwrtheyrn ym Mawrth/Ebrill 2022.</p> <p>Mae holl aelodau CIC Powys yn mynychu sesiwn Cymraeg llafar ym mis Mawrth gyda Dysgu Cymraeg. Mae'r staff a'r aelodau i gyd wedi derbyn cardiau Flach i'w helpu gyda Chymraeg sylfaenol.</p>
104	Gweithredol	<p>Mae'n rhaid ichi ddarparu -</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) geiriad neu logo i'ch staff i'w gynnwys ar lofnodion e-bost a fydd yn eu galluogi i nodi p'un ai eu bod yn rhugl yn y Gymraeg neu eu bod yn dysgu'r iaith, a geiriad i'ch cyflogeion a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u 		<p>Mae holl staff CIC Powys wedi derbyn y canlynol:</p>

manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu eraill nad ydyn nhw ar gael i ymateb i negeseuon e-bost.

Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â safon 104, heblaw:

- Rhan (b) – darparu geiriad Cymraeg ar gyfer manylion cyswllt eich cyflogeion ac i hysbysu eraill nad ydyn nhw ar gael i ymateb i negeseuon e-bost.



**I'm learning
Welsh**


**Dwi'n dysgu
Cymraeg**

Mae pob llofnod e-bost yn ddwyieithog, sy'n cynnig fersiwn Gymraeg o fanylion cyswllt

Negeseuon allan o'r swyddfa ar gyfer e-byst (er eu bod wedi'u heithrio).

				<p>Enghraifft –</p> <p>Diolch am eich gohebiaeth. Rwyf allan o'r swyddfa tan 02.01.2023 byddaf yn ymateb ar ôl imi ddychwelyd.</p> <p>Os mae eich gohebiaeth yn un frys, cysylltwch â'm cyd-weithwyr ar 01633 838516 Diolch</p> <p>Thank you for your correspondence. I'm out of the office until 02.01.2023 and will answer on my return.</p> <p>If your correspondence is urgent, please contact my colleagues on 01633 838516 Thank you.</p>
105	Gweithredol	Mae'n rhaid ichi - (a) ddarparu bathodyn ar gyfer aelodau'r staff sy'n siarad Cymraeg i'w wisgo i gyfleu		Mae staff yn ymwybodol bod modd iddyn nhw wneud cais am lanyard neu fathodyn i'w

		<p>hynny; a</p> <p>(b) hyrwyddo gwisgo bathodyn ymysg aelodau'r staff.</p>		<p>wisgo os ydyn nhw'n rhugl y y Gymraeg. Hyd yn hyn, ni chafwyd cais o'r fath.</p>
111	Gweithredol	<p>Pan fyddwch chi'n -</p> <p>(a) codi arwydd newydd neu adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), neu'n</p> <p>(b) cyhoeddi neu arddangos hysbysiad yn eich gweithle;</p> <p>mae'n rhaid i unrhyw destun a ddangosir ar yr arwydd neu hysbysiad fod yn Gymraeg (p'un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad â'r testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbyiad ar wahân), ac os ydy'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, ddylech chi ddim trin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</p>		<p>Gweler yr ymateb i safon 47.</p>
112	Gweithredol	<p>Pan fyddwch chi'n -</p> <p>codi arwydd newydd neu adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), neu'n</p> <p>(a) cyhoeddi neu arddangos hysbysiad yn</p>		<p>Gweler ymatebion i safonau 47 a 111.</p>

		eich gweithle; sy'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ag yn Saesneg, rhaid gosod y testun Cymraeg fel ei bod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.		
113	Gweithredol	Mae'n rhaid i sicrhau fod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau sy'n cael ei arddangos yn eich gweithle yn gywir yn nhermau ystyr a mynegiant.		Mae'r arwyddion sy'n cael eu gwneud i'w harddangos yn ein swyddfeydd dan ofal gwasanaeth cyfieithu.
115	Cadw cofnodion	Mae'n rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o'r nifer o gwynion a dderbynnir ganddoch chi sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiant â safonau.		Taenlen fewnol Enghraifft – 
118	Atodol	Mae'n rhaid ichi sicrhau fod dogfen sy'n cofnodi'r safonau y mae'n ddyletswydd arnoch chi i gydymffurfio â nhw, ac i baraddau y mae'n rhaid ichi gydymffurfio â'r safonau hynny graddau, ar gael ar eich gwefan.		Cyhoeddir hysbysiad ein cydymffurfiant yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan: Enghraifft –

				<p>Welsh Language Standards</p> <p>The Welsh Language Standards were created because of a measure passed by the Welsh Assembly in 2011, the Welsh Language (Wales) Measure.</p> <p>The purpose of Welsh Language Standards is to:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ensure clarity to organisations in relation to the Welsh language • ensure clarity to Welsh speakers on what services they can expect to receive in Welsh • ensure greater consistency in Welsh language services and improve quality to users" <p>Every public services organisation in Wales has to comply with language duties. From 30 May 2019 the Board of CHCs and CHCs in Wales must follow the Welsh Language Standards that apply to them. You can find out more (including what standards have been applied) at the Welsh Language Commissioner's website:</p> <p>http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/English/Pages/Home.aspx</p> <p>Safonau'r Gymraeg</p> <p>Crëwyd Safonau'r Gymraeg oherwydd mesur a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, sef Mesur y Gymraeg (Cymru).</p> <p>Pwrpas Safonau'r Gymraeg yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei gwneud yn fwy eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg • Ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg • Sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd i ddefnyddwyr" <p>Rhaid i bob sefydliad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith. O 30 Mai 2019 ymlaen, rhaid i'r Bwrdd CïCau a CïCau yng Nghymru ddilyn y Safonau iaith sy'n berthnasol iddynt. Gallwch gael gwybod mwy (gan gynnwys pa safonau sy'n berthnasol) ar wefan Comisiynydd y Gymraeg:</p> <p>http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx</p>
119	Atodol	Mae'n rhaid ichi — (a) sicrhau fod ganddoch chi weithdrefn gwynion sy'n delio â'r modd rydych chi'n		Mae ein gweithdrefn cwynion, sy'n cynnwys cwynion ynghylch ein cydymffurfiant yn erbyn

mynd i'r afael â chwynion yn ymwneud â'ch cydymffurfiant â'r safonau y mae'n ddyletswydd arnoch chi i gydymffurfio â nhw, a

(b) chyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan.

safonau'r Gymraeg, wedi'i chynnwys yn nogfen genedlaethol Bwrdd y CICau "Cwyno Amdanom Ni".



FINAL - MAKING A COMPLAINT ABOUT



FINAL - MAKING A COMPLAINT ABOUT

Fe gyhoeddir hon ar ein gwefan:

Home | About Us | Get Help | Get Involved | Improving NHS Services | What we have to Say

NHS Changes | Visits to NHS Services | National Projects

Home > About Us > Complain About Us

Complain About Us

We welcome your comments and suggestions about how well we are carrying out our activities on your behalf. We value your feedback and use it to develop and improve our work and the way we carry out our role. We recognise that we may not always get things right. If this happens, it is important that you tell us about it as soon as possible so that we can take immediate action.



We can deal with complaints about how we carry out our activities, including complaints about members of our staff or people working on our behalf. This may include:

- something that we may have done or should have done
- how well we have carried out our activities
- how we have treated you.

[Making a complaint against us booklet](#) or download the complaint form [here](#)

Concerns about CHC members should be raised under this policy - [Members code of conduct](#)

--	--	--	--	--

120	Atodol	<p>(1) Mae'n rhaid ichi gynhyrchu adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio gyda'r ffordd rydych chi wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd hi'n ddyletswydd arnoch chi gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn.</p> <p>(2) Mae'n rhaid i'r adroddiad ariannol gynnwys y gwybodaeth ganlynol (lle bo hynny'n berthnasol, i'r graddau y mae'n ddyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atyn nhw)—</p> <p>(a) nifer y cywnion a dderbynioch chi yn ystod y flwyddyn dan sylw sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau y buoch dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (ar sail y cofnodion y buoch yn eu cadw yn unol â safon 115);</p> <p>(b) nifer y cyflogeion sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn (ar sail y cofnodion y buoch yn eu cadw yn unol â safon 116);</p>		<p>Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ar gyfer 2019/2020 ym mis Medi 2020:</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;"> <div style="text-align: center;">  <p>WLS Board and CHC annual report templat</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>WLS Board and CHC annual report templat</p> </div> </div>
-----	--------	---	--	--

(c) nifer (ar sail y cofnodion y buoch yn eu cadw yn unol â safon 117) y swyddi newydd a gwag y buoch yn eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi lle'r oedd —

(i) sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;

(ii) gofyn dysgu sgiliau yn y Gymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd;

(iii) sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

(3) Mae'n rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol dim hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Maen rhaid ichi sicrhau fod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.

121	Atodol	<p>Mae'n rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg (os daw casi gan y Comisiynydd) sy'n ymwneud â'ch cydymffurfiant â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio penderfyniadau a'r safonau gweithredol ymae'n ddyletswydd arnoch i gydymffurfio â nhw.</p>		<p>Fe wnawn ni gadw at y safon hwn pan wneir ceisiadau; hyd yn hyn, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg ers gweithredu'r safonau.</p> <p>Rydyn ni, fodd bynnag, yn cydymffurfio â'r safon hwn gan inni ymgymryd â'r holl geisiadau blaenorol am dystiolaeth yn ymwneud â'r Cynllun Iaith a ddisodlwyd, a'u cyflwyno ar gais Comisiynydd y Gymraeg mewn blynyddoedd blaenorol.</p>
-----	--------	---	--	---

Atodiad B

Offeryn hunanasesu'r Gymraeg

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0 DIM SGILIAU	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu o sylwedd 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu o sylwedd 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu o sylwedd
LEFEL 1 MYNEDIAD	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ayyb. • Cyfarch a deall cyfarchiad. • Defnyddio geiriau ac ymadroddion cyffredin, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ayyb. • Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad gyda...'. • Datgan ceisiadau syml a dilyn gyda chwestiynau /ceisiadau ychwanegol mewn modd cyfyngedig. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy yn ymwneud â maes fy ngwaith fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg ayyb.
LEFEL 2 SYLFAEN	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall hanfod sgysiau yn Gymraeg yn y gwaith • Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a hanfod gwybodaeth sydd heb foy n arferol ar faterion cyfarwydd yn ymwneud â maes 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon ar ystod cyfyngedig o bynciau rhagweladwy yn ymwneud â'm profiadau neu maes fy ngwaith fy hun.

	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml • Mynegi barn mewn modd cyfyngedig cyn belled â bo'r pwnc yn gyfarwydd • Deall cyfawyddiadau pan ddefnyddir iaith syml 	fy ngwaith fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni ayyb.	
LEFEL 3 CANOLRADD	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall llawero'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod ayyb. • Cynnal sgwrs syml ar bwnc yn ymwneud â'r gwaith, ond efallai'n gorfod troi'n ôl i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth cymhleth neu dechnegol • Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol • Derbyn a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon sy'n debygol o angen sylw • Cynng cyngor ar faterion syml yn ymwneud â'r gwaith 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganio testunau am wybodaeth berthnasol • Deall ystod teg o ohebiaeth, llenyddiaeth ffeithiol ayyb., yn ymwneud a heb fod yn ymwneud â'r swydd, pan ddefnyddir iaith safonol. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy ngwaith fy hun, ond y byddai angen siaradwr Cymraeg i'w wirio • Gwneud nodiadau gweddol gywir wrth i rywun siarad
LEFEL 4 UWCH	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sgwrs hamddenol estynedig yn ymwneud â'r gwaith neu roi cyflwyniad gyda lefel dda o ruglder ac ystod mynegiant ond efallai'n gorfod troi'n ôl at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen a deall gwybodaeth yn weddol rhwydd cyn belled na ddefnyddir geirfa anarferol ac nad ydy'n ymwneud ag unrhyw wybodaeth eithaf 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi llythyrau ffurfiol o sawl math cyfarwydd megis ymholiadau, cwynion, ceisiadau ac ymgeisiadau • Cymryd nodiadau gweddol gywir mewn cyfarfodydd neu arddweud syml

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn maes fy ngwaith fy hun • Dadlau dros / yn erbyn achos 	cymhleth neu dechnegol	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â maes fy ngwaith fy hun, ond y byddai angen i siaradwr Cymraeg ei wirio
LEFEL 5 RHUGL	<p style="text-align: center;">Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynghori ar / siarad am faterion arferol, heb fod yn arferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif yn ymwneud â'm profiadau fy hun • Rhoi cyflwyniad/arddangosiad • Delio'n hyderus â chwestiynau cas neu anrhagweladwy • Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol • Cynnal cyfweiliadau â'r wasg/cyfyngau 	<p style="text-align: center;">Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall syniadau a gwybodaeth gymhleth a fynegir mewn iaith cymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau ayyb. 	<p style="text-align: center;">Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwn • Ysgrifennu nodiadau llawn / cywir o gyfarfodydd tra'n parhau i ddilyn trafodaethau a chyfrannu atyn nhw • Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau gyda hyder ond y byddai angen eu gwirio, o bosib, am fân-gamgymeriadau o ran sillafu a gramadeg